

SL(6)101 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2021

Cefndir a Diben

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd a berir gan nifer achosion a lledaeniad COVID-19.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth benodol i ymateb i ymddangosiad yr amrywiolyn Omicron o COVID-19, a ddynodwyd yn amrywiolyn sy'n peri pryder gan Sefydliad Iechyd y Byd ar 26 Tachwedd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn galluogi swyddogion olrhain cysylltiadau Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru i'w gwneud yn ofynnol i bobl hunanynysu o ganlyniad i gysylltiad agos ag achos wedi'i gadarnhau o'r amrywiolyn Omicron, neu ag achos lle y mae amheuaeth o'r amrywiolyn hwnnw.

Mae'r darpariaethau ar gyfer hunanynysu domestig wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r sefyllfa sy'n datblygu ac i arafu trosglwyddiad y clefyd yn y gymuned. Mae'r Rheoliadau yn adlewyrchu newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU ar gyfer Lloegr. Ni fydd y ddarpariaeth bresennol sy'n eithrio cysylltiadau agos rhag hunanynysu cyhyd â'u bod wedi cwblhau cwrs llawn o frechlyn wedi'i awdurdodi, wedi cymryd rhan mewn treial brechlyn, yn methu â chael eu brechu am reswm meddygol neu o dan 18 mlwydd oed, yn gymwys os yw'r person yn cael gwybod ei fod wedi dod i gysylltiad agos ag achos wedi'i gadarnhau o'r amrywiolyn Omicron, neu ag achos lle y mae amheuaeth o'r amrywiolyn hwnnw.

Effaith hyn yw y bydd unrhyw un yng Nghymru sy'n cael ei hysbysu gan wasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru (neu gyrff penodedig eraill) ei fod wedi dod i gysylltiad agos ag achos wedi'i gadarnhau o'r amrywiolyn Omicron, neu ag achos lle y mae amheuaeth o'r amrywiolyn hwnnw, yn gorfod hunanynysu ni waeth beth fo'i oedran na'i statws brechu.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau"), gan gael effaith o ddechrau 3 Rhagfyr 2021 ymlaen, er mwyn darparu'r hyn a ganlyn:

- pan fo oedolyn wedi'i hysbysu ei fod wedi dod i gysylltiad agos â pherson sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws sy'n amrywiolyn Omicron, neu a all fod yn amrywiolyn Omicron, rhaid i'r oedolyn hunanynysu am 10 diwrnod (oni bai bod rheoliad 10 o'r prif Reoliadau yn gymwys) ni waeth beth fo'i statws brechu.
- pan fo oedolyn wedi'i hysbysu bod plentyn y mae gan yr oedolyn gyfrifoldeb drosto wedi dod i gysylltiad agos â pherson sydd wedi cael canlyniad positif am y



coronafeirws sy'n amrywiolyn Omicron, neu a all fod yn amrywiolyn Omicron, rhaid i'r plentyn ynysu am 10 diwrnod (oni bai bod rheoliad 10 o'r prif Reoliadau yn gymwys).

Mae'r prif Reoliadau hefyd yn cael eu diwygio i egluro bod "swyddog olrhain cysylltiadau" yn cynnwys Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol fel y cânt hysbysu pobl am ganlyniadau profion positif.

Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwysu unrhyw



ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus ar fyrder, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hyn a gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, i gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:

Er nad oes asesiad effaith rheoleiddiol llawn wedi ei lunio a'i gyhoeddi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn yn benodol oherwydd yr angen i'w rhoi yn eu lle ar frys, bydd asesiad effaith cryno yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

